# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.04.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ieuan Roberts, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Moira Duell-Parri (Swyddog Iechyd Amgylchedd ar gyfer cais 2) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – COST CUTTER, 346-350, STRYD FAWR, BANGOR**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Cost Cutter, 346-350, Stryd Fawr, Bangor:** Mr Mangal Shoker (Ymgeisydd)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Y Cynghorydd Jean Forsyth a Mrs Mari Llwyd Roberts

**Ar ran Cyngor Dinas Bangor:** Y Cynghorydd Dewi Llewelyn

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Cost Cutter, 346-350, Stryd Fawr, Bangor am drwydded eiddo i ganiatau gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo rhwng 06.00 a 03.00 saith diwrnod yr wythnos gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd am 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Nododd i'r heddlu drafod y cais â'r ymgeisydd ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori ac iddynt wrthwynebu'r bwriad i werthu alcohol tan 03.00. Yn wyneb hyn, cytunodd yr ymgeisydd i ddiwygio'r cais i werthu alcohol tan 22.30 yn ddyddiol yn unig. Fodd bynnag, gofynnodd yr heddlu i'r ymgeisydd gyfyngu gwerthiant alcohol ymhellach tan 22.00 yn ddyddiol ar y sail y byddai'r gwerthiant efallai yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, 'roedd gan yr Heddlu sylwadau ar y cais ond nid oedd gwrthwynebiad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Gwasanaeth Cynllunio. Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr aelod lleol na'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor ac aelod ward cyffiniol yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd bod cael trwydded alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo yn hanfodol i sicrhau llwyddiant ei fusnes. Bwriedir cyflogi hyd at 12 o staff yn gysylltiedig â'r busnes ac ymgymerir â gwariant sylweddol ar yr adeilad er mwyn dod ag ef i fyny i'r safonau angenrheidiol. 'Roedd yn fodlon cwtogi'r oriau i werthu alcohol i 22.00 yn ddyddiol ac hefyd yn fodlon cadw recordiau teledu cylch cyfyng a'u rhoddi i'r heddlu ar gais.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu y dylai'r gwerthiant o alcohol orffen dim hwyrach na 22.00 yn ddyddiol gan y byddai'n tanseilio'r amcan atal trosedd ac anhrefn. Byddai caniatau gwerthiant o alcohol oddi ar yr eiddo hyd at 03.00 yn ddyddiol yn sicr o arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn yn y rhan hon o'r stryd fawr. Trafodwyd y cais â'r ymgeisydd pryd y cytunodd i'w ddiwygio i ganiatau gwerthiant o alcohol hyd at 22.30 yn ddyddiol ond 'roedd yr heddlu'n parhau o'r farn na ddylai alcohol gael ei werthu ar ôl 22.00 yn ddyddiol a chytunodd yr ymgeisydd i hynny. Gofynnodd hefyd am gael cynnwys amod ar y drwydded parthed y defnydd o gamerau cylch cyfyng. Awgrymodd hefyd y dylid cynnwys amod ar y drwydded bod Cynllun Herio 21 yn cael ei orfodi yn yr eiddo.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Ei bod yn byw oddeutu 35 llath o'r eiddo hwn ac 'roedd yn bryderus y byddai'r sefydliad yn agored am 24 awr yn dyddiol, saith diwrnod yr wythnos.
- Bod y trigolion lleol eisoes yn cael eu amharu gan sŵn o eiddo cyffelyb eraill yn hwyr yn y nos.
- Y byddai'n afresymol i werthu alcohol o 06.00 gan y byddai'n fodd o brynu ac yfed alcohol yn fuan yn y bore gan greu niwsans i'r trigolion lleol.
- Y dylid cwtogi'r oriau i werthu alcohol rhwng 08.00 a 22.00 yn ddyddiol, saith diwrnod yr wythnos er cydymffurfio ac oriau sefydliadau cyffelyb eraill yn y ddinas.
- Bod sawl eiddo yn y rhan hon o'r stryd fawr yn gwerthu lluniaeth hwyr yn y nos i'w fwyta allan ac y byddai caniatau trwydded i werthu alcohol yn hwyr yn y nos yn denu cwsmeriaid o'r sefydliadau hyn i brynu ac yfed alcohol yn hwyr yn y nos gan achosi chwydu ar y strydoedd.
- Bod angen rhagor o fanylion parthed lleoliad y camerau cylch cyfyng.
- Bod Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais i werthu alcohol tan 03.00 yn ddyddiol, saith diwrnod yr wythnos.
- Bod gwerthu bwyd drwy "hatch" yn hwyr yn y nos yn debygol o achosi sŵn yn y stryd ac amharu ar fwynderau'r trigolion cyfagos.

Mewn ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, hysbysodd yr ymgeisydd ei fod yn fodlon cwtogi'r oriau i werthu alcohol i 08.00. Parthed lleoliad y camerau cylch cyfyng, nododd y bwriedir gosod tri camera ar flaen yr adeilad, dau neu dri yn y cefn gyda'r gweddill o fewn ardal mânwerthu'r siop.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Cost Cutter, 346-350, Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn:-**
**a) Caniatau gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo dan baragraff M rhwng 08.00 a 22.00, saith diwrnod yr wythnos.**
**b) Caniatau oriau agor yr eiddo i'r cyhoedd dan baragraff O am 24 awr y dydd, saith**

**diwrnod yr wythnos.**
**c) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded sy'n cynnwys hefyd y Cynllun Herio 21.**
**ch) Teledu cylch cyfyng digidol i wylio pob ardal sy'n agored i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa (ac eithrio tu mewn i'r toiledau). Dylid cadw recordiadau teledu cylch cyfyng am 31 diwrnod a'u rhoddi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai'n bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Bangor) cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ZAM ZAM, 308, STRYD FAWR, BANGOR

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Zam Zam, 308, Stryd Fawr, Bangor:** Mr Khaliq Noor (Ymgeisydd)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Y Cynghorydd Jean Forsyth a Mr Shojjad Ali

**Ar ran Cyngor Dinas Bangor:** Y Cynghorydd Dewi Llewelyn

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Zam Zam, 308, Stryd Fawr, Bangor am drwydded eiddo i ganiatau gwerthu lluniaeth hwyr yn y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo rhwng 23.00 a 03.00 gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 09.00 a 03.45 saith diwrnod yr wythnos. Nododd bod yr ymgeisydd ar hyn o bryd yn rhedeg siop groser.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, 'roedd gan yr Heddlu sylwadau ar y cais ond nid oedd gwrthwynebiad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr aelod lleol.'Roedd gwrthwynebiad i'r cais gan Gyngor Dinas Bangor, yr aelod ward cyffiniol, y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

(i) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

(ii) Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

(iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

(iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

(v) Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd na ddarperir bwyd ffres yn yr eiddo ond yn hytrach gwerthir bwydydd parod o gabinet fwyd yng nghornel yr eiddo. Felly nid yw'r bwydydd hyn yn

cael eu coginio o fewn yr eiddo ond yn hytrach fe'i twymir yn y meicrodon. Nododd ei fod yn fodlon cwtogi'r oriau i werthu lluniaeth hwyr yn y nos i 02.00 neu 02.30.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes gan yr heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod â'r ymgeisydd 'roedd o'r farn y dylai'r gwerthiant o luniaeth hwyr yn y nos a'r oriau agor i'r cyhoedd orffen am 02.30 yn ddyddiol a fyddai'n dod â'r eiddo hwn yn gyfartal o ran oriau â'r mwyafrif o sefydliadau eraill cyffelyb ym Mangor. Gofynnodd hefyd am gael cynnwys amod ar y drwydded parthed y defnydd o gamerau cylch cyfyng.

Hysbysodd y Swyddog Iechyd Amgylchedd ei bod yn gwrthwynebu'r cais ar y sail y byddai'r hyn y gofynnir amdano yn newid y busnes presennol yn sylweddol. Nododd mai gwerthu bwyd dyddiol a wneir yn yr eiddo ar hyn o bryd. Datganodd bryder hefyd am yr amser cau y gofynnir amdano sef 03.45. Tynnodd sylw bod yr ymgeisydd wedi tynnu'r system awyru a oedd yn mynd allan i'r stryd fawr ac 'roedd hynny wedi gwella'r sefyllfa o safbwynt sŵn. Cyfeiriodd at y problemau gyda ysbwriel yn y rhan hon o'r stryd fawr ac nid yw'r ymgeisydd wedi nodi yr hyn a allai ei wneud i leihau'r broblem yn gysylltiedig â'i eiddo. Nododd hefyd y problemau gydag ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y rhan hon o'r ddinas. Tynnodd sylw hefyd na roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth o werthu lluniaeth hwyr yn y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo ac oherwydd hynny ni chafwyd cyfle i osod amodau ar unrhyw ganiatâd.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Ei bod yn byw oddeutu 150 llath o'r eiddo hwn ac y byddai caniatau'r cais yn cynyddu'r sŵn yn y rhan hon o'r stryd fawr ac yn amharu ar fwynderau trigolion y tai cyfagos.
- Bod digon o sefydliadau cyffelyb yn bodoli yn y rhan hon o'r ddinas ac y byddai caniatau rhagor o'r math hwn o ddarpariaeth yn amharu ar gymeriad a mwynderau'r stryd fawr.
- Y dylid gwrthod y cais oherwydd y cynnydd posibl mewn niwsans cyhoeddus a throsedd ac anhrefn.
- Bod Cyngor Dinas Bangor yn bryderus iawn bod sefydliad arall o'r math hwn yn bwriadu agor yn hwyr yn y nos yn y rhan hon o'r stryd fawr.
- Nad yw'r ymgeisydd wedi ymateb yn ddigonol i rhai cwestiynau parthed niwsans cyhoeddus yn ymwneud â gwaredu ysbwriel ac y dylid felly gwrthod y cais.
- Y dylai'r eiddo dderbyn caniatâd cynllunio cyn dechrau ar y ddarpariaeth hon.
- Y byddai'n rhoddi mwy o bwysau ar yr heddlu i gadw goruchwyliaeth ar y rhan hon o'r ddinas.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Zam Zam, 308, Stryd Fawr, Bangor fel a ganlyn:-**
**a) Caniatau gwerthu lluniaeth hwyr yn y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo dan baragraff L rhwng 23.00 a 02.00 saith diwrnod yr wythnos.**
**b) Caniatau oriau agor yr eiddo i'r cyhoedd dan baragraff O rhwng 09.00 a 02.00 saith diwrnod yr wythnos.**
**c) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded.**

**ch) Teledu cylch cyfyng digidol i wylio pob ardal sy'n agored i'r cyhoedd gan gynnwys pob mynediad/allanfa (ac eithrio tu mewn i'r toiledau). Dylid cadw recordiadau teledu cylch cyfyng am 31 diwrnod a'u rhoddi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai'n bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw (yn yr achos hwn, Gorsaf Heddlu Bangor) cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 3. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ACADEMI, ADEILAD ROBINSON, FFORDD DEINIOL, BANGOR

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran Academi, Adeilad Robinson, Ffordd Deiniol, Bangor:** Mrs Cheryl Wright (Ymgeisydd) a'r Mri Ashley James, Skip Belton ac L. Dickinson

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mrs M.A. G Davies

**Aelodau lleol:** Y Cynghorwyr June a Keith Marshall

Cyn dechrau ystyried y cais, nododd y Cadeirydd nad yw'r ymgeisydd wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar y cais. Mewn ymateb, hysbysodd yr ymgeisydd na ymgynghorwyd â hwy oherwydd bod y cais yn gofyn am ymestyn yr oriau yn unig. Fodd bynnag, fe ymgynghorwyd â'r heddlu.

Hysbysodd Cyfreithiwr y Cyngor bod y Ddeddf Trwyddedu yn nodi bod angen i'r ymgeisydd gysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar y cais ac yn wyneb hynny 'roedd yn ofynnol gohirio ystyried y cais am y tro.

Ymddiheurodd cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd am yr amryfusedd a achoswyd a chymerir camau yn awr i gysylltu â'r cyrff hyn er derbyn eu sylwadau ar y cais. Gofynnodd pa bryd y byddai'r is-bwyllgor yn debygol o ystyried y cais ymhellach.

Hysbysodd Cyfreithiwr y Cyngor ymhellach y cynhelir etholiadau llywodraeth leol ar 3 Mai 2012 ac oherwydd hynny a'r ffaith y cymerir amser i sefydlu'r pwyllgorau yn dilyn yr etholiad, na fyddai'n bosibl ystyried y cais tan mis Gorffennaf 2012.

**PENDERFYNWYD yn wyneb yr uchod, gohirio ystyried y cais i ddyddiad arall i'w bennu.**

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CLWB RAOB CADER IDRIS, ABERMAW

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu y derbyniwyd cais am drosglwyddo trwydded o fod yn drwydded tystysgrif clwb i drwydded eiddo ar gyfer yr eiddo uchod. Nododd y derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan breswylydd lleol ac yn dilyn trafodaeth ag ef, fe gytunodd i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl. Derbyniwyd sylwadau hefyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a oedd yn datgan pryder am y rhagofalon tân yn yr eiddo, ond yn ddiweddarach fe ymgymerodd swyddog o'r gwasanaeth ag archwiliad pellach o'r eiddo ac 'roedd yn fodlon gyda'r sefyllfa yno.

Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a’r preswylydd lleol eu bod yn tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl. Yn wyneb hyn, fe ganiatwyd y drwydded.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 2.30pm